**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for North Wales and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1389
Ein cyf/Our ref LW/00402/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

02 Gorffennaf 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Chwefror ynghylch deiseb P-06-1389 yn gofyn am gyflwyno terfyn o 30mya ar gefnffordd yr A487 trwy bentrefi Eglwys Fach a Ffwrnais, a darparu gohebiaeth gan y deisebydd. Nodwn eu bod wedi cwblhau'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd ac yn cyfeirio at Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Yn yr ymateb blaenorol amlinellwyd bod y canllawiau ar Bennu Terfyn Cyflymder Lleol yng Nghymru (SLSLiW) yn cael eu diweddaru i ystyried polisïau newydd Llywodraeth Cymru fel y ddwy ddogfen hon ynghyd â'r newid yn y terfyn diofyn i 20mya ar ffyrdd cyfyngedig. Rhoddir blaenoriaeth nawr i ganllawiau ar gyfer terfynau cyflymder ar ffyrdd lle mae pobl yn byw, gydag arweiniad i ffyrdd eraill i ddilyn.

Rydym yn awyddus i barhau i wrando fel rhan o'r gwaith hwn, gydag thrafod yn rhan bwysig o'r broses. Rydym hefyd am sicrhau bod unrhyw ganllawiau sy'n cael eu datblygu ar gyfer terfynau cyflymder lle mae pobl yn byw yn cyd-fynd â'r canllawiau 20mya sydd wedi'u diweddaru i'w cyhoeddi ym mis Gorffennaf.

Yn dilyn rhyddhau'r canllawiau SLSLiW newydd bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r terfynau cyflymder ar draws ein Rhwydwaith Cefnffyrdd. Tan hynny, nid ydym yn gwneud unrhyw newidiadau i derfynau cyflymder unigol fel y gallwn sicrhau cysondeb â'r canllawiau newydd.

Yn gywir,

**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for North Wales and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.